CYFRES A7


# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw



DARLLENWCH
Genesis 27: 41-46
28: 1-22



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 28: 16

## Astudiaeth 2 Jacob – Y Breuddwydiwr



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Genesis 35: 1-15 Job 33: 14-18 Ioan 1: 45-51

Gan fod Esau'n bygwth lladd ei frawd, Jacob, y peth doethaf oedd i Jacob ddianc i le diogel.

**C** **At bwy yr awgrymodd mam Jacob y dylai fynd?** 1

**C** **Beth oedd enw'r man lle'r oedd hwnnw'n byw?** 1

Roedd Rebeca meddwl y byddai Esau'n dod dros ei ddicter yn fuan iawn ac y câi Jacob, ei hoff fab hi, ddod adref eto. Ond nid dyna fel y bu hi!

**C** **Ar ddiwedd taith y diwrnod cyntaf, beth wnaeth Jacob?** 1

**C** **Disgrifiwch, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, beth a welodd Jacob yn ei freuddwyd.** 2

Y peth pwysicaf oedd bod DUW YN SIARAD Â JACOB!

**Beth roedd Duw yn ei ddweud am:-**

**C** **Y wlad lle'r oedd Jacob?** 2

**C** **Hil neu ddisgynyddion Jacob?** 2

**C** **Dyfodol Jacob?** 2

Roedd Duw yn addo pethau ardderchog i Jacob fel yr oedd wedi'i wneud i Abraham ac Isaac. Rydyn ni'n credu bod Duw yn cadw at ei Air bob amser. Er bod Jacob wedi gwneud pethau drwg, roedd Duw yn dal i ofalu amdano ac roedd ar waith yn ei fywyd.

**C** **Mae'r Adnod Allweddol yn nodi bod Jacob yn rhyfeddu pan ddihunodd. Ysgrifennwch beth a ddywedodd.** 1

Roedd Jacob ar ffo. Roedd yn ofnus ac efallai ei fod yn meddwl nad oedd neb yn gwybod lle'r oedd! Os felly, roedd yn anghywir! Roedd Duw yn gwybod ! Roedd yr hyn a ddigwyddodd wedi creu argraff fawr ar Jacob ac roedd rhaid iddo ymateb mewn rhyw ffordd.

**C Beth wnaeth Jacob pan gododd?** 1

Roedd y cyfarfod hwn â Duw mor bwysig i Jacob fel y rhoddodd enw ar y man lle'r oedd. Ystyr yr enw oedd 'Tŷ Dduw'.

**C Ysgrifennwch yr enw a'i ystyr.** 1

**Mae ................................................... yn golygu ...................................................**

Heddiw, mae pawb ohonon ni yn debyg i Jacob mewn rhyw ffordd. Fel Jacob, rydyn ni wedi pechu, ond mae Duw yn ein caru ac yn dymuno'n hachub ni. Does dim rhaid i ni deithio i fan arbennig i gwrdd â Duw, nac aros am freuddwyd arbennig. Oherwydd bod Iesu wedi marw dros ein pechodau ni, gallwn ddod at Dduw "trwy ffydd". Mae hyn yn golygu ein bod yn ymddiried yn llwyr ynddo ac yn derbyn yr Arglwydd Iesu i'n bywydau fel Gwaredwr ac Arglwydd. Ydi Iesu'n gweithredu fel 'ysgol i'r Nefoedd' i chi?

**Cyn symud ymlaen, gwnaeth Jacob nifer o addewidion i Dduw.**

**C Ysgrifennwch frawddeg am UN ohonynt.** 2




**C I orffen yr astudiaeth hon, gwnewch y CROESAIR.** 4

**Cliwiau ar Draws**

1. Y man lle'r oedd Jacob yn byw cyn iddo ffoi. (Genesis 28: 10)
5. Hen enw'r man lle cafodd y freuddwyd. (adn. 19)
6. Addawodd Jacob roi un rhan
   o __ _ _ o bopeth oedd ganddo i Dduw.
7. Y man yr oedd yn mynd iddo. (adn. 10)

**Cliwiau i Lawr**

1. Enw tad-cu Jacob. (28: 2)
2. Roedd yr ysgol yn cyrraedd i'r _ _ _ _ _ _ __.
3. Yr enw a roddodd Jacob ar y lle.
6. Roedd y rhain yn mynd i fyny ac i lawr.



**cyfanswm**